**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwillad Craffu - Caffael

**O bell drwy Teams**

**Dydd Iau, 24 Mehefin 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | E W Fitzgerald | D H Hopkins |
| L R Jones | J W Jones | I E Mann |
| M Sherwood | T M White | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Cllr D Hopkins | Aelod Cabinet - Cyflawni a Gweithrediadau (Dirprwy Arweinydd) |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Chris Williams | Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol |
| Michelle Roberts | Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B J Rowlands

---

## 1 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Dim

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

None

## 3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5 Wedi'i ddiweddaru - rosolwg o Gaffael

Cyflwynwyd trosolwg strategol manwl wedi'i ddiweddaru o Gaffael i'r Panel gan Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a Chris Williams, Pennaeth y

Gwasanaethau Masnachol. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol a bydd yn rhan o adroddiad tystiolaeth/canfyddiadau'r ymchwiliad:

- Rheolau a rheoliadau caffael
- Rheolau Gweithdrefnau Contractau
- Swyddogaethau caffael
- Dulliau a phrosesau caffael
- Ddatblygiadau allweddol
- Y Tu Hwnt i Frics a Morter
- Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol; a
- Llwybrau i'r farchnad
- Astudiaeth achos 1 – Cytundeb Fframwaith ar gyfer Darparu Gofal Cartref a Gofal Seibiant yn y Cartref ar gyfer Pobl Hŷn ac Oedolion Iau ag Anableddau Corfforol a/neu Nam ar y Synhwyrau
- Astudiaeth achos 2 – Priffyrdd Abertawe

Yn dilyn y drafodaeth ar yr adroddiad, codwyd a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn falch o'r hyn rydym wedi'i wneud yma yn Abertawe mewn perthynas â chaffael, ein bod yn gweithio mewn tîm caffael cadarnhaol a gweithgar a'i fod yn falch o'r gwaith y maent wedi'i gyflawni.
- Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol ddwy astudiaeth achos sy'n dangos pa mor gadarn yw'r system ac mae'r rhain yn rhoi enghreifftiau ymarferol o sut rydym yn cyflawni ar lawr gwlad.
- Gofynnwyd sut rydym yn ei gwneud hi'n bosib i rai o'n busnesau lleol llai dendro am gontractau, pan fydd rhai contractau mor fawr. Clywodd y Panel fod rhai o'n contractau mwy yn cael eu rhannu'n gyfrannau llai fel y gall darparwyr llai a chanolig eu maint ystyried tendro. Mae caffael yn gweithio'n gyson ar yr agwedd hon ac mae'n rhan greiddiol o Gynllun Adfer COVID y Cyngor i gynnwys darparwyr lleol. Bod yr holl gontractau'n cael eu hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. Mae'n bwysig helpu'r ardal leol i ffynnu.
- Codwyd amrywiadau i gontractau, a chytunwyd ar amrywiadau mewn prisiau ar ôl cytuno ar gontract. Clywodd y Panel fod dau fath o amrywiad: amrywio amser ac amrywio costau. Cytunir ar newidiadau i gostau gan Bennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwr Caffael. Byddwn yn gweithio rhwng rheolau gweithdrefnau contractau a'r gyfraith ac mae'r rhain yn penderfynu a wneir newidiadau.
- Pwysigrwydd diwrnodau ymwybyddiaeth cyflenwyr a gydnabyddir fel cyfleoedd da i gwmnïau lleol a'r posibilrwydd o greu swyddi. Gofynnodd y panel faint o bobl oedd ar y rhestr leol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol y byddai'n holi ynghylch hynny ac yn adrodd yn ôl wrth y Panel. Dywedodd hefyd fod y cyngor yn gwneud llawer o waith allgymorth gyda chwmnïau lleol fel eu bod yn gallu tendro am gontractau'n lleol. Cytunodd y Panel fod sut rydym yn tyfu'r busnes lleol hwn yr un mor bwysig â gwerth am arian a chystadleurwydd.
- Gofynnwyd iddynt a ydym yn gweithio gydag Addysg/ysgolion i sicrhau bod arferion caffael yn gyson a bod gweithdrefnau cywir yn cael eu defnyddio? Clywodd y Panel fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu a bod taflen ffeithiau wedi'i llunio fel eu bod yn deall rheolau'r weithdrefn a thendro. Rydym hefyd yn gweithio gydag addysg ynghylch materion y gellid tynnu sylw atynt drwy archwilio mewnol.

- Caffael lleol a pha mor effeithiol yw'r nod hwnnw ar hyn o bryd, a chodwyd enghraifft Preston? Clywodd y Panel fod y cyngor yn llwyr ymroddedig i'r ymagwedd hon ac yn gwneud hynny ar hyn o bryd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn lleol a chyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymgysylltu â nifer o sefydliadau eraill. Gallwn weld beth mae eraill yn ei wneud yng Nghymru drwy rwydwaith Caffael Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cytunodd y Panel fod hwn yn fater hollbwysig i'r cyngor ac y bydd yn edrych yn fanylach ar effaith contractau caffael cymdeithasol.

Bydd yr adroddiad a'r pwyntiau a drafodwyd heddiw'n rhan o becyn tystiolaeth y Panel a'r adroddiad canfyddiadau ar ddiwedd yr ymchwiliad.

6 **Cynllun yr ymholiad Caffael**

Trafododd a chytunodd y Panel ar eu Cylch Gorchwyl a'u Cynllun Prosiect diwygiedig ar gyfer yr ymchwiliad a fydd yn dechrau gyda chyfarfod ag Archwiliad Mewnol y Cyngor ar 27 Gorffennaf 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am

**Cadeirydd**